# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)05-08**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth, 19 Chwefror 2008

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod y 4ydd Llawr, Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Chris Franks, Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Siwan Davies, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Siwan Davies, y Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth sydd newydd ei phenodi, i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Jocelyn Davies. Croesawodd y Cadeirydd Chris Franks sy'n ei chynrychioli.

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

**(i) BC(3)04-08 Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 5 Chwefror 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i gael eu cyhoeddi.

**Camau Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i Ddod**

**Busnes yr Wythnos hon - BC(3)05-08(p1)**

3.1 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'r Gweinidog dros Faterion Gwledig yn gwneud datganiad ar y Cynllun Datblygu Gwledig yng Nghymru, yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher.

3.2 Cytunodd y pwyllgor na chaiff y cyfnod pleidleisio ei gynnal cyn 5pm ddydd Mercher ar gyfer busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

3.3 Nododd y Pwyllgor drefniant busnes ar gyfer 19 a 20 Chwefror 2008.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)05-08(p2)**

3.4 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai trafodaeth i ddathlu diwrnod y Gymanwlad yn cael ei chynnal 11 Mawrth 2008. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r cynnig yn cael ei gyflwyno yn enw'r Llywydd a Chadeirydd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad ( y CPA). Cytunodd y Pwyllgor hefyd y caiff neges y Frenhines i'r Gymanwlad ei chynnwys yng Nghofnod y Trafodion ar gyfer y diwrnod hwnnw.

3.5 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)03-08(p3)**

3.6 Cytunodd y pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.7 Cytunodd y pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol**

**Llythyr oddi wrth Jonathan Morgan a phapur ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig a gynigiwyd ganddo ynghylch darparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl - BC(3)05-08(p4) & BC(3)05-08(p5)**

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes y cais gan Jonathan Morgan i sefydlu pwyllgor i ystyried y GCD arfaethedig a gynigiwyd ganddo fel Aelod '"Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 6) 2008'" ynghylch Gwasanaethau Iechyd Meddwl. Cytunodd y Pwyllgor Busnes bod pwyllgor i ystyried y Gorchymyn hwnnw yn cael ei sefydlu a'i ethol cyn gynted ag y bo modd. Cytunodd y Pwyllgor hefyd fod y dyddiad terfyn i'r Pwyllgor GCD gyflwyno ei adroddiad 11 wythnos eistedd ar ôl i'r pwyllgor gael ei sefydlu.

**5. Pwyllgorau'r Cynulliad**

**Cais gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i gyfarfod yng Ngogledd Cymru - BC(3)05-08(p6)**

5.1 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi gwneud cais i gyfarfod yn Wrecsam, Gogledd Cymru ddydd Iau 28 Chwefror 2008, fel rhan o'i ymchwiliad i ddarparu gwasanaethau i weithwyr mudol yng Nghymru. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r cais.

**Cais gan y Pwyllgor Deisebau i gyfarfod yng Ngogledd Cymru - BC(3)05-08(p7)**

5.2 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Deisebau wedi gwneud cais i gyfarfod yn swyddfa Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Colwyn, ddydd Iau, 6 Mawrth. Nododd y Pwyllgor Busnes fod y Pwyllgor Deisebau yn ystyried nifer o ddeisebau o Ogledd Cymru ac y byddai'r cyfarfod yn rhoi i ddeisebwyr o Ogledd Cymru'r cyfle i ymgysylltu gyda'r Pwyllgor yn eu hardal eu hunain. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r cais.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**